<table>
<tr><td>ARCHWILIAD<br><br>Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd<br>Gwynedd a Môn</td><td rowspan="2">Arolygwyr / Inspectors:<br>HYWEL WYN JONES BA (Hons), BTP, MRTPI<br>RICHARD DUGGAN BSc (Hons), DipTP, MRTPI<br><br>Swyddog Rhaglen / Programme Officer:<br>SHARON ELLIS<br><br>☎01286 679411 ✉SwyddogRhaglen@gwynedd.llyw.cymru<br><br>Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH</td></tr>
<tr><td>Anglesey & Gwynedd<br>Joint Local Development Plan<br><br>EXAMINATION</td></tr>
</table>

Ms N H Davies
Rheolwr Polisi Cyd-gynllunio
Uned Polisi Cyd-gynllunio
Llawr 1af Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor
Bangor
Gwynedd
LL57 1DT

22 Gorffennaf 2016

Annwyl Ms Davies,

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026 Archwiliad**
**Papur Eglurhad – Darpariaeth Tai**

Diolch am y cyflwyniad diweddar o Bapur Eglurhad – Darpariaeth Tai i'r archwiliad sy'n ceisio egluro'r rheswm dros ddewis lefel y twf tai. Er bod hwn yn gyfraniad defnyddiol i fy nealltwriaeth o sefyllfa'r Cynghorau, mae angen rhagor o fanylion. Dylai'r rhain gael eu cyflwyno fel rhan o'ch datganiad ar gyfer sesiwn gwrandawiad 2, yn benodol mewn perthynas â chwestiwn 3 sy'n darllen: *A yw'r gofyniad tai o 7,184 yn briodol i fodloni anghenion y siroedd dros gyfnod oes y Cynllun?*

Mae'n amlwg bod y Cynghorau wedi casglu tystiolaeth o sawl ffynhonnell er mwyn llywio eu hystyriaeth o'r gofyniad tai ar gyfer y Cynllun. Archwiliwyd senarios gwahanol sy'n darparu ystod o opsiynau posibl ar gyfer twf tai.

Mae'r Papur Eglurhad, a'r Casgliadau a restrir ym Mhapur Pwnc 4B, yn amlygu'r ffactorau amrywiol sydd wedi dylanwadu penderfyniad y Cynghorau. Mae'r Papur Eglurhad yn esbonio y bu penderfynu ar y ffigur yn destun ychydig o farn ac mae'n cydnabod yr anhawster o gydbwyso'r holl elfennau. Mae'n disgrifio'r ffigur a ddewiswyd fel 'senario hybrid' sy'n gymysgedd o senarios a arweinir gan anheddau a chyflogaeth, ond nid yw'n esbonio'n fanylach sut y daethpwyd i'r ffigur. Ar wahân i hynny, nid yw'n glir sut mae'r unedau tai fesul blwyddyn ym mharagraff 22 y Papur yn cyd-fynd â'r ffigurau ym mholisi PS13 y Cynllun.

Mae'r esboniad presennol yn ei gwneud hi'n anodd deall sut mae'r sylfaen dystiolaeth wedi llywio'r penderfyniad i ddewis y ffigur terfynol. Er enghraifft, a ystyriwyd mai dau senario oedd y fwyaf priodol o'r rhai a amlygwyd. Os felly, pa rai oedd y rhain, beth oedd y sail ar gyfer gwneud y penderfyniad hwn ac, ar ôl gwneud y penderfyniad hwnnw, sut y daethpwyd i'r ffigur a ddewiswyd? Pam wnaeth y Cynghorau benderfynu i beidio ag amlygu un senario a oedd yn adlewyrchu orau beth yr oeddent yn ystyried yn lefel briodol o dwf? A seiliwyd yr ymagwedd at benderfynu ar y ffigur priodol ar benderfyniadau a wnaed ar wahân ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd neu a oedd y senario 'hybrid' yn seiliedig ar asesiad o ardal gyfan y Cynllun?

Dylai unrhyw ddogfennau a fyddai'n helpu i ddeall sut penderfynodd y Cynghorau ar ffigur y gofyniad gael eu darparu. Beth bynnag, dylid darparu esboniad mwy manwl o pam fo'r Cynghorau'n ystyried bod ffigur y gofyniad yn briodol, **gan ystyried yn benodol y sylfaen dystiolaeth**. Ystyriaf mai'r cyswllt rhwng y dystiolaeth ystadegol a gasglwyd a'r ffigwr a ddewiswyd yw'r manylyn sydd ar goll ar hyn o bryd.

Gobeithir y bydd cael esboniad llawnach o'r mater hwn yn helpu i baratoi ar gyfer y gwrandawiad a gwneud defnydd mwy effeithiol o'r amser yn y sesiwn.

Yn gywir,

*Hywel Wyn Jones*
Arolygydd